

Hunaniaeth

GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR

GWEITHGAREDD 1


a) Ystyriwch ac ysgrifennwch ym mhle yr ydych yn teimlo eich bod yn perthyn. Gallai hyn fod yn ddaearyddol (stryd, ysgol, dinas, rhanbarth neu wlad benodol) neu yn ddiffiniad arall, e.e., ethnigrwydd, iaith neu grefydd.

b) Trafodwch â'r dosbarth cyfan:

- Pam yr ydych wedi dewis yr ardal ddaearyddol neu'r diffiniad penodol hwn?
- A ydych bob amser wedi eich diffinio eich hun fel hyn ac wedi teimlo eich bod yn perthyn yno, neu a yw hyn wedi newid dros amser?
- A yw'n bwysig ym mhle yr ydych yn perthyn?
- Pam y mae perthyn yn bwysig?

GWEITHGAREDD 2

a) Edrychwch ar y paentiad [Portrait of an Anglesey Man](#) gan Karel Lek.



[Portrait of an Anglesey Man gan Karel Lek \(1929-2000\)](#)

© Ystâd Karel Lek
Credyd y ffotograff: Prifysgol Bangor.

b) Darllenwch fywgraffiad byr o'r arlunydd:

Daeth y ffoadur o Wlad Belg, **Karel Lek**, a symudodd i Fangor yng Ngogledd Cymru (ac ar ôl hynny i Fiwmares ar Ynys Môn), yn arlunydd ar ôl y rhyfel. Arddangosodd ei waith mewn nifer o orielau ym Mhrydain ac Ewrop, gan gynnwys yr Academi Frenhinol. Cafodd Karel ei dderbyn i'r Academi Frenhinol Gymreig ym 1955 a dyfarnwyd MBE iddo yn 2003. Roedd gan dad Karel ddinasyddiaeth Belgaid-Brydeinig oherwydd i'w hen-daid weithio yn Llundain am chwe blynedd ar ddiwedd yr 1800au. Yn hwyrach, dywedodd Karel: "Oherwydd effeithiau'r rhyfel diwethaf, symudais fel bachgen un ar ddeg oed o Antwerp i ogledd Cymru, lle rwyf wedi byw am dros 70 mlynedd. Weithiau, rwy'n meddwl a yw hynny'n ddigon i mi alw fy hun yn Gymro!"¹ Bu farw ar Ddydd Gŵyl Ddewi yn 2020.

c) Ystyriwch a thrafodwch fel dosbarth:

- Sut gallai fod yn bosibl cymhwyso fel 'Cymro'?
- Beth mae'n ei olygu i fod yn 'ddinasydd' o wlad?
- Pa mor bwysig yw dinasyddiaeth i ymdeimlad o berthyn?

GWEITHGAREDD 3

a) Darllenwch fywgraffiad byr o Gaby Koppel.

Ganwyd **Gaby Koppel** yng Nghaerdydd ym 1957. Roedd ei rhieni, Henry ac Edith, ill dau yn ffoaduriaid Iddewig - ei thad o'r Almaen a'i mam o Hwngari. Roedd cymuned fach o ffoaduriaid Iddewig yng Nghaerdydd, gyda llawer ohonynt yn gweithio yn Ystâd Masnachu Trefforest ger Pontypridd. Roedd ei thad yn gweithio yn Nhrefforest fel peiriannydd i Aero Zipp, cwmni a sefydlwyd gan dad-cu Gaby, Joachim Koppel, yn y 1930au. Yn wahanol i lawer o ffoaduriaid, roedd rhieni Gaby yn dychwelyd yn rheolaidd i'w gwledydd cartref ar fusnes neu ar wyliau. Mae Gaby bellach yn gweithio fel newyddiadurwr a chynhyrhydd yn Llundain.

b) Gwrandewch ar [glip sain](#) lle mae Gaby yn trafod iaith a hunaniaeth.

Trawsgrifiad Hanes Llafar:

Felly, un o'r pethau rydw i'n cael trafferth gyda fwyaf yw iaith, felly un o'r cysylltiadau clirïaf â chenedligrwydd yw iaith, ond Saesneg yw'r unig iaith rwy'n ei siarad yn rhugl. Ac roedd fy rhieni'n siarad Almaeneg gartref, ac Almaeneg oedd lingua franca ein holl... felly, roedd ein cylch cymdeithasol yng Nghaerdydd i gyd yn siarad, wel, roedden nhw'n dod o Wlad Pwyl, Tsiecoslofacia, Fienna, yr Almaen, Hwngari, o bob man, ac roedd llawer ohonyn nhw'n amlieithog, ond roedden nhw i gyd yn siarad Almaeneg gyda'i gilydd. Felly, rydw i wedi cael fy magu mewn amgylchedd sy'n siarad Almaeneg, ond dydw i ddim wir yn gallu siarad

¹ Cai Parry-Jones, *The Jews of Wales: A History* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), tud. 124.

Almaeneg fel brodor, a dydw i ddim wir yn siarad Cymraeg, a dydw i ddim yn siarad unrhyw Hwngareg. Ac felly, rydych chi'n teimlo eich bod chi'n perthyn i'r hunaniaethau hyn, ond mae'n ddisylwedd iawn rywsut, mae rhywbeth ychydig yn... os nad ydych chi'n siarad yr iaith go iawn, mae eich perthynas â'r hunaniaeth yn llawer mwy disylwedd, dw i'n meddwl, ac felly rydych yn teimlo fel ychydig o dwyllwr, oherwydd os ydw i mewn lifft gyda phobl sy'n siarad Hwngareg, rwy'n gallu adnabod yr iaith – ond dydw i ddim yn gallu dweud unrhyw beth wrthyn nhw – “Rydw i o dras Hwngaraidd, gyfaill!” – ond, wyddoch chi, rydych chi'n teimlo braidd yn... mae'r holl beth yn ansylweddol.

c) Gan weithio mewn paru neu fel unigolion, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pam y dywedodd Gaby Koppel ei bod hi weithiau yn teimlo fel twyllwr?
- Beth yw'r cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth?
- Pa mor bwysig yw iaith i'r synnwyr o berthyn i genedl?

GWEITHGAREDD 4

a) Darllenwch fywgraffiad byr o Kate Bosse-Griffiths.

Roedd **Kate Bosse-Griffiths** yn ffoadur Iddewig a ddaeth i Brydain o'r Almaen ym 1937. Priododd y Cymro, John Gwyn Griffiths, ym mis Medi 1939, cyn symud i Pentre yn y Rhondda. Dysgodd Gymraeg a daeth yn eiriolwr angerddol dros yr iaith Gymraeg, gan gyhoeddi barddoniaeth a llyfrau yn y Gymraeg. Symudodd y teulu i Abertawe ar ôl y rhyfel, lle parhaodd i ysgrifennu ar gyfer y wasg Gymraeg, gan gefnogi sefydlu Cymdeithas yr Iaith ym 1962. Bu farw yn Abertawe ym 1998.

b) Gwrandewch ar [glip sain](#) lle mae Heini Gruffudd yn trafod hunaniaeth ei fam, Kate Bosse-Griffiths.

Trawsgrifiad Hanes Llafar:

Ac, mewn ffordd, gallwch chi gysylltu hynny â safbwynt gwrth-sefydliadol. Hynny yw, roedd hi wedi byw o dan y system Sosialaidd Genedlaethol yn yr Almaen - wel, system y gellid ei hystyried fel enghraifft o sut y gall sefydliad reoli'n anfoesol ac ati. Felly, roedd hi'n eithaf parod fan hyn, pe bai hi'n gweld anghyfiawnder gan y sefydliad, “Wel, wel, dwi ddim yn mynd i roi mewn i'r math hwnnw o sefydliad anfoesol”. Felly, gallwch ei gysylltu, felly, â'i phrofiadau; hynny yw, byddai ei phositifrwydd dros ennill hawliau sylfaenol i'r iaith Gymraeg yn gydnaws â'i gwrthwynebiad i'r drefn yn yr Almaen. Weithiau, byddwch chi'n gweld ffoaduriaid neu ... yn dod yn fwy o Saeson na'r Saeson, wyddoch chi, er mwyn ffitio i mewn. Wel, wn i ddim gyda hi, a ddaeth yn fwy o Gymraes na'r Cymry, wyddoch chi.

c) Gan weithio mewn paru neu fel unigolion, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pam mae Heini Gruffudd o'r farn bod ei fam wedi dod yn ymgyrchydd iaith Gymraeg ar ôl cyrraedd Cymru?

- Beth mae e'n ei olygu pan ddywedodd fod ei fam yn “fwy o Gymraes na’r Cymry”?
- Pa mor bwysig ydych chi'n meddwl yw diwylliant y wlad sy'n derbyn wrth helpu ffoaduriaid i addasu?
- Sut gallai gwledydd helpu ffoaduriaid i addasu i'w bywydau newydd?

GWEITHGAREDD 5

Gair Cymraeg yw **hiraeth** nad oes ganddo unrhyw gyfieithiad Saesneg uniongyrchol. Mae Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, yn cymharu *hiraeth* â gweld eisiau eich cartref, gydag islif o alar a thristwch cysylltiedig â'r rheini rydych wedi eu gadael ar ôl, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru a diwylliant Cymreig. Mae'n gymysgedd o hiraethu, dyheu, cofio, tristwch a chwant didwyll am Gymru'r gorffennol.

Mae gair tebyg yn bodoli yn yr Almaeneg, sef **sehnsucht**, berfenw sy'n golygu 'hiraethu', 'dyheu', 'chwant' neu 'ddeisyfu'. Mae rhai seicolegwyr yn defnyddio'r gair i gynrychioli meddyliau a theimladau am bob agwedd ar fywyd sy'n anorffenedig neu sy'n amherffaith, wedi'u paru â dyhead am brofiadau amgen delfrydol.

Trafodwch, fel dosbarth, y cysyniad o hiraeth mewn ffoaduriaid:

- A fyddai digwyddiadau'r 1930au wedi dileu unrhyw deimladau cadarnhaol y gallent fod wedi'u cael mewn perthynas â'u plentyndod cynnar?